# #BGaGarem

## CRYNODEB CAM 3 RHAGLEN YMGYSYLLTU CYHOEDDUS Y **BLAENAU GWENT A GAREM** 2017

Mae Y Blaenau Gwent a Garem yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais ac yn gweithio gyda gwasanaethau lleol allweddol i helpu creu Blaenau Gwent well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

*Mae Lowri eisiau Blaenau Gwent lle mae'n hapus, iach ac yn cael y gefnogaeth mae ei hangen i fynd i Brifysgol.*

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Blaenau Gwent
PUBLIC SERVICES BOARD

# CRYNODEB A CHYNNWYS

Mae Y Blaenau Gwent a Garem yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais ac yn gweithio gyda gwasanaethau lleol allweddol i helpu creu Blaenau Gwent well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Dechreuodd y rhaglen ym mis Awst 2016. Ers hynny rydym wedi siarad gyda dros 2,000 o bobl ledled Blaenau Gwent o bob math o gefndir; hen ac ifanc; i ganfod beth sy'n bwysig i bobl i fyw'n dda a mwynhau eu bywydau a beth a gredant yw'r materion allweddol ar gyfer ein hardal.

Mae'r cylchgrawn hwn yn crynhoi trydydd cyfnod Y Blaenau Gwent a Garem a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Medi 2017. Mae'n esbonio'r hyn y gwnaethom ei ddysgu o'r cam hwn a sut y byddwn yn defnyddio'r adborth i helpu creu Cynllun Llesiant Blaenau Gwent sy'n ddogfen sy'n nodi cyfeiriad gwaith y dyfodol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn yr ardal.

I gael mwy o wybodaeth, neu i weld y drafft Gynllun Llesiant, ewch i'n gwefan neu gysylltu â ni yn defnyddio'r manylion islaw:

**Gwefan:** www.blaenaugwentpsb.org.uk
**E-bost:** pps@blaenau-gwent.gov.uk
**Ffôn:** 01495 355092

Mae'r lluniau o fewn y ddogfen hon yn enghreifftiau o adborth a dderbyniwyd o bob un o 3 cam Y Blaenau Gwent a Garem a gynhaliwyd adeg cyhoeddi.

Cyhoeddwyd Hydref 2017


Am y Blaenau Gwent a Garem 3
Crynodeb Cam 3 4
Eich adborth eich ffordd chi 5
Crynodeb cyffredinol o adborth 6
AMCAN: Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd 7
AMCAN: Blaenau Gwent eisiau annog pobl i ddewis ffordd iach o fyw 9
AMCAN: Blaenau Gwent eisiau cael cymunedau diogel a chyfeillgar 11
AMCAN: Blaenau Gwent eisiau llunio ffyrdd newydd i ffyniant 14
AMCAN: Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu ein hamgylchedd 17
Beth sy'n digwydd nesaf 20





Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# AM Y BLAENAU GWENT A GAREM

Bu gwasanaethau cyhoeddus lleol yn cydweithio i greu Blaenau Gwent well ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ond ni allwn wneud hyn ar ben ein hunain. Mae angen i ni weithio gyda'n cymunedau lleol, busnesau a sefydliadau i wneud yn siŵr fod y Blaenau Gwent a Garem yn un mae pawb ei heisiau! Mae rhaglen 'Y Blaenau Gwent a Garem' yn ymwneud â gwasanaethau lleol yn mynd allan a siarad gyda'n cymunedau i ganfod sut le yr hoffent i Flaenau Gwent fod a sut y credant y gallwn gyflawni hynny. Nod y rhaglen yw ein helpu i greu Cynllun Llesiant ar gyfer Blaenau Gwent fydd yn gosod cyfeiriad gwaith y dyfodol ar gyfer yr holl wasanaethau cyheoddus yn yr ardal. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi cam 3 y rhaglen. Dyma grynodeb o'r camau blaenorol:

## CAM 1:
**Awst i Medi 2016**

Fe wnaethom siarad gyda dros 1,000 o bobl o bob rhan o'r ardal a gofyn iddynt:

C1 Beth sy'n arbennig am Flaenau Gwent?

C2 Pa bethau sy'n bwysig i chi fyw'n dda a mwynhau eich bywyd?

C3 Beth fyddai 'n gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell

C4 Beth allwch chi ei wneud i sicrhau Blaenau Gwent well?


## CAM 2:
**Chwefror i Mawrth 2017**

Fe wnaethom ddangos i bobl beth oedd pawb wedi'i ddweud yn ystod cam 1 a gofyn iddynt os mai dyma'r Blaenau Gwent maent yn ei hadnabod, neu os oes unrhyw beth ar goll.

Defnyddiwyd ein hadborth o'r ddau gam i helpu cynhyrchu Asesiad Llesiant o'r ardal sy'n ddogfen sy'n creu darlun o sut le yw Blaenau Gwent, beth sy'n dda amdani y dylem ei gynnal a lle mae angen gwneud gwelliannau.

Gallwch weld yr asesiad llesiant ar:

www.blaenaugwentpsb.org.uk




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# CRYNODEB CAM 3: Gorffennaf i Medi 2017

Rhoddodd ein Hasesiad Llesiant ddarlun clir i ni o sut le yw Blaenau Gwent a beth yw'r prif faterion yn yr ardal. Fe wnaethom ddefnyddio'r wybodaeth i lunio 5 amcan allweddol ar gyfer yr ardal, neu bethau y dymunwn eu cyflawni, er mwyn gwneud Blaenau Gwent yn lle gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol...

## Mae Blaenau Gwent eisiau...

...i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd

...annog bywyd i ddewis ffordd iach o fyw

...cael cymunedau diogel a chyfeillgar

...llunio ffyrdd newydd i ffyniant

...gofalu am a diogelu ei amgylchedd

Er mwyn cyflawni pob un o'n hamcanion, fe wnaethom lunio rhai drafft flaenoriaethau y dymunwn weithio arnynt. Roedd trydydd cam Y Blaenau Gwent a Garem yn ymwneud â dangos ein drafft flaenoriaethau i bobl a gofyn iddynt:


**C1** Pam y credwch y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Flaenau Gwent?

**C2** Beth a gredwch sydd angen ei wneud i'n helpu i gyflawni'r flaenoriaeth yma?


**C3** Wyddoch chi am unrhyw waith sydd eisoes yn cael ei wneud i'n helpu i gyflawni'r flaenoriaeth yma?

Er mwyn i ni fedru siarad gyda chynifer o bobl ag sydd modd a rhoi cyfle i bawb ddweud eu barn, fe wnaethom drefnu a chymryd rhan mewn llwyth o ddigwyddiadau, grwpiau a sesiynau galw heibio lleol ym mhob rhan o'r fwrdeistref, yn cynnwys...

- Marchnad Abertyleri
- Marchnad Glynebwy
- Clwb Dydd Swffryd
- Pob llyfrgell
- Fforwm 50+
- Fforwm Ieuenctid
- Busnesau lleol
- 4 archfarchnad leol
- Canolfan Siopa Tredegar
- Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent
- Safle Sipsiwn a Theithwyr Nantyglo
- Canolfan Gwaith Glynebwy
- Canolfan Gwaith Abertyleri
- Uwch Gyngor Plant
- Digwyddiad partneriaeth GAVO
- Coleg Gwent
- Diwrnod Plant a Theuluoedd Tai Calon
- Bore Coffi Cymraeg
- Teml Fwdhaidd
- Clwb Brecwast



Gallai pobl hefyd gymryd rhan ar y we drwy ein holiadur ar-lein



Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# EICH ADBORTH EICH FFORDD CHI!

Deallwn fod gwahanol bobl yn hoffi cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd, a dyna pam y gwnaethom gynnig llawer o gyfleoedd gwahanol i bobl i rannu eu sylwadau; o holiaduron i gardiau post, lluniau i gerddi, sesiynau grŵp i negeseuon cyfryngau cymdeithasol; gallai- ac fe wnaeth- pobl gymryd rhan sut bynnag y dymunent!







*Digwyddiadau Post-it mewn Digwyddiadau: Gallai cyfranogwyr ysgrifennu eu hatebion ar nodyn Post-it a'i lynu ar ein bwrdd*

*Llun: Fe wnaeth ymatebwyr, yn arbennig blant, dynnu llun sut yr hoffent i Flaenau Gwent fod neu'r hyn yr hoffant amdani. Fe wnaethom yn siŵr ein bod yn dweud wrthynt beth oedd yn ei llun er mwyn osgoi dryswch pan oeddent yn cael eu dadansoddi.*

*Straeon/cerddi: Gallai'r sawl a ymatebodd hefyd ysgrifennu stori neu gerdd am Flaenau Gwent*

*Cerdyn Post: Fe wnaethom ddosbarthu cardiau post gyda'n drafft flaenoriaethau wedi eu rhestru arnynt a gofyn i bobl ysgrifennu ar y cefn beth oedd eu barn am y blaenoriaethau hynny cyn eu dychwelyd atom drwy'r post.*

# CRYNODEB CYFFREDINOL O ADBORTH

Edrychodd ein tîm yn ofalus ar bob darn o adborth a'u rhannu yn filoedd o sylwadau unigol. Fe wnaethom nodi pa ddrafft flaenoriaeth yr oedd pob sylw yn cyfeirio ato a'r mater neu bwnc yr oedd yn ei ddisgrifio, megis 'trafnidiaeth gyhoeddus' neu 'bresenoldeb yr heddlu'. Roedd modd i ni wedyn ddynodi tueddiadau a phatrymau yn yr adborth. Dyma'r hyn y gwnaethom ganfod ...

## Rhoddodd dros 1,000 o bobl gyfanswm o 2,369 o sylwadau

### Yr amcanion mwyaf poblogaidd yn gyffredinol

1. Blaenau Gwent eisiau cael cymunedau diogel a chyfeillgar (597 o sylwadau, 27%)
2. Blaenau Gwent eisiau llunio ffyrdd newydd i ffyniant (533 o sylwadau, 24%)
3. Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd (472 o sylwadau, 21%)
4. Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu ei hamgylchedd (419 o sylwadau, 19%)
5. Blaenau Gwent eisiau annog pobl i ddewis ffordd iach o fyw (215 o sylwadau, 10%)


### 5 Uchaf y drafft flaenoriaethau drafft y soniwyd amdanynt

1. Creu cymunedau diogel a chyfeillgar (294 o sylwadau, 13%)
2. Diogelu, cadw a gwella ein hamgylchedd (260 o sylwadau, 11%)
3. Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant (257 o sylwadau, 11%)
4. Rhoi'r sgiliau i bobl maent eu hangen i gael swyddi (221 o sylwadau, 10%)
5. Diogelu plant rhag profiadau negyddol (215 o sylwadau, 9%)

### 5 Uchaf y materion penodol y soniwyd amdanynt

1. Gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc (184 o sylwadau, 8%)
2. Tirlunio / tacluso / codi sbwriel / baw cŵn (111 o sylwadau, 5%)
3. Presenoldeb yr heddlu/wardeiniaid parcio/ monitro (101 o sylwadau, 5%)
4. Clybiau cymunedol / grwpiau / digwyddiadau (78 o sylwadau, 4%)
5. Cyllid ar gyfer gwasanaethau a grwpiau (68 o sylwadau, 3%)

Mae gweddill y ddogfen hon yn crynhoi'r hyn a ddywedodd pobl wrthym am bob amcan a drafft flaenoriaeth.



# AMCAN: Blaenau Gwent eisiau i bawb gael y dechrau gorau mewn bywyd

Yr amcan hwn oedd y 3ydd un mwyaf poblogaidd gyda phobl drwyddi draw, gan dderbyn 472 o sylwadau (21%). Buom yn siarad â 2 drafft flaenoriaeth gyda phobl am yr amcan hwn. Roedd yr ymatebion i'r ddwy flaenoriaeth yn debyg iawn felly rydym wedi ein huno ar gyfer ein 3 phrif fater islaw.

## DRAFFT FLAENORIAETH: Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant

Hon oedd y 3ydd drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 257 o sylwadau (11%)

## DRAFFT FLAENORIAETH : Diogelu plant rhag profiadau negyddol (e.e. camddefnyddio sylweddau, trais domestig a thrais rhywiol )

Hon oedd y 5ed drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd yn gyffredinol gyda 215 o sylwadau (9%)

### 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddwy flaenoriaeth ddrafft:

1. Gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc (95 o sylwadau, 21%)
2. Addysgu/codi ymwybyddiaeth (51 o sylwadau, 11%)
3. Cefnogaeth (41 o sylwadau, 11%)


### Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Roedd pobl yn cydnabod fod rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd yn her allweddol oedd angen cefnogaeth a chyllid penodol, yn arbennig gan fod Blaenau Gwent yn ardal amddifadus. Teimlai llawer mai hwn oedd y peth pwysicaf i'w gael yn iawn ac y byddai gwelliannau yma'n cael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o'n blaenoriaethau eraill.

Cydnabyddir y byddai gan addysg rôl bwysig yma; addysgu rhieni ac athrawon ar sut i adnabod a delio gyda phroblemau yn gynnar, ac addysgu plant ar bynciau megis sgiliau rhianta fel bod cenedlaethau'r dyfodol wedi paratoi'n well.




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.



*“Epidemig camddefnyddio sylweddau ar draws yr ardal!”*

Dynodwyd fod camddefnyddio sylweddau yn broblem ym mhob rhan o'r ardal, gyda sôn fod pobl i'w gweld yn cymryd cyffuriau mewn llawer o barciau a chanol trefi, gyda phlant a phobl ifanc dan bwysau i'w cymryd. Pan ofynnwyd sut i atal hyn, yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd rhoi mwy o bethau i blant a phobl ifanc i'w gwneud, megis clybiau ieuenctid/chwaraeon a gweithgareddau hamdden, i'w cadw "oddi ar y strydoedd ac allan o drwbwl". Roedd hyn yn fwy cyffredin yn ardal Cwm Sirhywi.

*"Angen mwy o bethau i blant eu gwneud i'w cadw allan o drwbwl."*


Dynodwyd nifer o wasanaethau yn gweithio yn y maes hwn, yn fwyaf arbennig Dechrau'n Deg, ond roedd teimlad cryf y dylai'r gwasanaethau hyn fod yn hygyrch i bawb ac nid dim ond i'r rhai yn byw o fewn ardaloedd cod post penodol.

*"Ni all pob rhiant helpu, 'dyw rhai ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu eu hunain! Nid oes neb yn darllen straeon i rai plant"*

Roedd rhai sylwadau am y gorddefnydd o dechnoleg fodern, gyda phlant yn dewis chwarae gemau cyfrifiadur neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na chyfathrebu'n llafar neu chwarae yn yr awyr agored. Byddai cyfyngu technoleg adref ac yn yr ysgol yn annog mwy o brofiadau bywyd, gwell sgiliau cymdeithasol a gwell iechyd meddwl.

*"Nid yw plant yn cael eu magu'n iawn - ffordd anghywir o feddwl"*

Roedd menywod beichiog a mamau ifanc yn fwy tebygol o sôn am anhawster cael mynediad i rai gwasanaethau.




Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# AMCAN: Blaenau Gwent eisiau annog pobl i ddewis ffordd iach o fyw

Yr amcan oedd yr amcan lleiaf poblogaidd yn gyffredinol, gan dderbyn 215 o sylwadau yn unig (10%). Roedd 2 drafft flaenoriaeth y gwnaethom siarad â phobl amdanynt ar gyfer yr amcan yma:

## DRAFFT FLAENORIAETH: Creu Blaenau Gwent ddi-fwg

Hon oedd y 12fed drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda dim ond 75 o sylwadau (3%). Nid oedd digon o sylwadau i greu rhestr 3 uchaf o faterion.

### Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Y ddrafft flaenoriaeth yma dderbyniodd yr 2il nifer isaf o sylwadau. O'r sylwadau y gwnaethom eu derbyn, roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â chreu ardaloedd ysmygu penodol i ffwrdd o fynedfeydd adeiladau, cyflwyno parthau di-fwg ledled y trefi ac addysgu neu godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion o'r problemau iechyd yn gysylltiedig gydag ysmygu.

Roedd pobl ifanc, yn arbennig rai yn eu harddegau, yn fwy tebygol o ddweud fod ysmygu yn broblem gan ddweud y gwelid ysmygu e-sigartets fel peth 'cŵl' i'w wneud. Awgrymodd rhai fod angen gwneud gwaith, megis lansio ymgyrchoedd, i greu stigma negyddol am ysmygu.

*"Caiff ysmygu ei weld fel rhywbeth cŵl', yn arbennig e-sigarets a wîd"*

Dywedodd rhai pobl na ddylai hyn fod yn flaenoriaeth o gwbl gan y teimlent ei fod yn amhosibl ei gyflawni.

*"Allwch chi ddim stopio pobl felly ddylai e ddim bof yn flaenoriaeth!"*

Roedd menywod beichiog a mamau ifanc yn fwy tebygol o ddweud y dylid cyflwyno mwy o ardaloedd ysmygu penodol.




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# DRAFFT FLAENORIAETH: Cyflawni pwysau iach ar gyfer plant a theuluoedd


Dyma'r 8fed drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 140 o sylwadau (6%).

## 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma:

1. Gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc (42 o sylwadau, 32%)
2. Addysgu/codi ymwybyddiaeth (19 o sylwadau, 14%)
3. Cefnogaeth (9 o sylwadau, 7%)

Roedd tua thraean y sylwadau ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma'n ymwneud â'r angen am fwy o weithgareddau corfforol am ddim neu rad i fod ar gael i blant a phobl ifanc y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol i'w cadw'n ffit ac iach.

*"Angen aelodaeth campfa a gweithgareddau am ddim ar gyfer rhieni a phlant"*




Dywedodd nifer o bobl y dylid cyflwyno dosbarthiadau coginio iach a maeth o fewn ysgolion.


*"Mae angen dosbarthiadau coginio iach mewn ysgolion"*

Roedd plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o siarad gyda ni am y drafft flaenoriaeth yma.

Dywedwyd hefyd y dylai fod terfyn ar nifer yr opsiynau bwyd heb fod yn iach a nifer fwy o opsiynau iach cost-isel ar gael yng nghanol trefi ac mewn ysgolion, colegau a gweithleoedd.

*"Gormod o fwytai bwyd cyflym a dim digon o ddewisiadau bwyd iach"*

Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.



# AMCAN: Blaenau Gwent eisiau cael cymunedau diogel a chyfeillgar

Yr amcan hwn oedd yr un mwyaf poblogaidd gyda phobl, gan dderbyn 597 o sylwadau (27%). Fe wnaethom siarad gyda phobl am 3 drafft flaenoriaeth ddrafft ar gyfer yr amcan hwn.

## DRAFFT FLAENORIAETH: Creu cymunedau cryf, cydlynus sy'n ymgysylltu

Hwn oedd y 7fed drafft flaenoriaeth drafft  fwyaf poblogaidd gyda 185 o sylwadau (8%)

### 3 uchaf y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma:

1. Ysbryd/balchder cymunedol (28 o sylwadau, 17%)
2. Clybiau/grwpiau cymunedol (26 o sylwadau,  15%)
3. Hyrwyddo digwyddiadau/gweithgareddau (13 o sylwadau, 8%)

### Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Cawsom lawer o sylwadau nad oedd gan bobl ym Mlaenau Gwent fawr ddim ysbryd cymunedol na balchder yn eu hardal, gyda theimlad na fu hyn yn broblem yn y gorffennol. I atal y broblem dywedodd pobl y dylai fod mwy o glybiau, grwpiau a digwyddiadau cymunedol yn cael eu cyflwyno lle gall aelodau'r gymuned ddod i adnabod ei gilydd, a dylai'r cyllid angenrheidiol fod ar gael. Roedd pobl yng nghwm Sirhywi yn llai tebygol o ddweud fod ysbryd cymunedol yn broblem.

*“Bydd ysbryd cymunedol yn marw gyda'r genhedlaeth hŷn"*


Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai gweithgareddau a digwyddiadau oedd eisoes yn cael eu gynnal gael eu hysbysebu'n well, efallai drwy greu porth gwefan gymunedol neu safle cyfryngau cymdeithasol a chyflwyno mwy o hysbysfyrddau.

*"Dim gweithgareddau cymdeithasol neu hamdden"*

Roedd yn glir fod llawer o waith eisoes yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater hwn gyda llawer o bobl yn dweud wrthym am grwpiau, prosiectau a chynlluniau lleol gwych oedd eisoes yn digwydd yn yr ardal. Fe wnaethant ddweud wrthym pa mor bwysig oedd hi i gadw cyllid ar gyfer y grwpiau hyn, ond dywedodd rhai y gallent gydweithio'n fwy effeithlon.

*“Parhau i gyllido prosiectau cymunedol lleol”*

Roedd y gymuned Fwdhaidd yn llawer mwy tebygol o siarad am ysbryd a balchder cymunedol nag unrhyw gymunedau eraill yn yr ardal.




Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# DRAFFT FLAENORIAETH: Creu cymunedau diogel a chyfeillgar

Dyma'r ddrafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 294 o sylwadau (13%)

## 3 uchaf y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma:

1. Presenoldeb yr heddlu (83 o sylwadau, 29%)
2. Ymddygiad gwrthgymdeithasol/fandaliaeth (40 o sylwadau, 14%)
3. Gweithaerddau ar gyfer plant a phobl ifanc (22 o sylwadau, 8%)

## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

'Mwy o heddlu ar y strydoedd; oedd y 4ydd fater mwyaf cyffredin ar draws yr holl ymarferiad ymgysylltu gyda theimlad y byddai hyn yn gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth a chaniatáu i breswylwyr deimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau.

*"Mwy o heddlu o amgylch"*

Roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth yn broblemau cyffredin yng nghanol trefi, yn arbennig yng Nghwm Ebwy Fawr, ac roedd hyn codi ofn ar rai preswylwyr.

*"Amgylchedd sy'n codi braw ar bobl ifanc yng nghanol trefi"*

Ystyriwyd fod camddefnyddio sylweddau hefyd yn broblem arbennig ym Mlaenau Gwent gyda chymryd cyffuriau i'w weld yng nghanol trefi a pharciau lleol. Pobl yng nghwm Sirhywi oedd fwyaf tebygol o sôn am hyn.

*"Mae cyffuriau ym mhobman yn yr ardal"*

Ynghyd â mwy o bresenoldeb gan yr heddlu, ystyriwyd fod 'mwy o bethau i blant a phobl ifanc eu gwneud' yn ffordd allweddol o atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau.

*"Mae parciau sglefrio ar gyfer sglefrio, nid cymryd cyffuriau"*

Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o sôn am ddiogelwch y gymuned na grwpiau eraill.



Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.



# DRAFFT FLAENORIAETH : Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd

Hwn oedd y 10fed drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 118 o sylwadau (5%)

## 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma:

1. Clybiau cymunedol/grwpiau/digwyddiadau (28 o sylwadau, 26%)
2. Gofalu am gymdogion (16 o sylwadau, 15%)
3. Argaeledd gwasanaethau (11 o sylwadau, 10%)

## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Ystyriwyd bod cyflwyno a pharhau cyllid ar gyfer clybiau a sesiynau galw heibio cymunedol yn allweddol i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, yn neilltuol ar gyfer yr henoed.

*"Dim cyllid i grŵp gweu i barhau!"*

Nid oedd hyn yn cael ei ystyried fel problem ar gyfer yr henoed yn unig, gyda nifer yn bobl chwilio am swyddi a rhieni sengl hefyd yn datgelu eu bod yn teimlo'n unig ac ar wahân.

*"Mae pobl allan o waith hefyd yn unig ac ar wahân"*

Roedd rhai awgrymiadau nad oedd y system trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn ddigonol ar gyfer pobl sydd ar wahân a theimlai fod rhai wedi'u trapio o fewn eu cymunedau bach.

Ystyriwyd fod arwahanrwydd yn arwain at broblemau iechyd meddwl fel iselder a phryder a bod angen atal hyn er mwyn gwella iechyd meddwl yn cyffredinol.

*"Mae rhai pobl yn teimlo'n ynysig iawn sy'n arwain at iselder"*

Roedd rhai yn y gymuned sipsiwn a theithwyr yn fwy tebygol o ddweud fod gofalu am eu cymdog-ion yn bwysig iawn iddynt.




Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.



# AMCAN: Blaenau Gwent eisiau llunio ffyrdd newydd i ffyniant

Yr amcan hwn oedd yr 2il un fwyaf poblogaidd, gan dderbyn 533 o sylwadau (24%). Fe wnaethom siarad wrth bobl gyda 3 blaenoriaeth ddrafft am yr amcan yma:

## DRAFFT FLAENORIAETH: Helpu pobl ifanc drwy gamau allweddol o addysg

Dyma'r 11eg drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 107 o sylwadau (5%)

### 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y flaenoriaeth ddrafft yma:

1 Addysg (51 o sylwadau, 50%)
2 Cefnogaeth (13 o sylwadau, 13%)
3 Gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc (9 o sylwadau, 9%)

### Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Gwella addysg oedd y mater mwyaf poblogaidd ar gyfer y flaenoriaeth ddrafft yma, gyda rhai pobl ifanc yn dweud  y gallai addysgu ansawdd isel a system addysg wael adael plant heb ddigon o gymwysterau ar gyfer coleg neu brifysgol.

*“Buddsoddi mwy mewn addysg”*

Dywedodd rhai pobl, yn arbennig ein hymatebwyr iau, bod y gefnogaeth o ysgol gynradd i uwchradd yn dda ond heb fod cystal o ysgol uwchradd i goleg neu brifysgol. Awgrymwyd bod angen mwy o wybodaeth ar eu hopsiynau, sut i wneud cais a pha gefnogaeth ariannol neu drafnidiaeth oedd ar gael iddynt.

*"Mae cefnogaeth o ysgol gynradd i uwchradd yn dda ond dim o ysgol uwchradd ymlaen"*

*"Dulliau addysgu newydd a mwy o hyfforddiant un i un"*

Roedd hefyd rai sylwadau am yr angen am gyllid digonol ar gyfer ysgolion ac y dylai addysg uwch fod yn fwy fforddiadwy.



Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

## DRAFFT FLAENORIAETH: Rhoi'r sgiliau i bobl maent eu hangen i gael swyddi

Dyma'r 4ydd drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 221 o sylwadau (10%)

### 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma:

1. Argaeledd swyddi (43 o sylwadau, 21%)
2. Addysg (34 o sylwadau, 17%)
3. Cefnogaeth (28 o sylwadau, 13%)

### Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

*“Angen mwy o swyddi nid dim ond sgiliau!”*

Roedd teimlad amlwg bod diffyg swyddi lleol a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus wael iawn yn fwy o broblem na diffyg sgiliau ar gael yn broblem allweddol am gyflogaeth.

*"Maen nhw'n gofyn i bobl allan o waith i wneud cais am swyddi heb unrhyw obaith o gyrraedd yno mewn gwirionedd oherwydd nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael"*


Teimlai nifer o bobl fod angen i ysgolion baratoi polant yn well ar gyfer swyddi drwy gyflwyno cwricwlwm mwy cadarn ar gyfer bywyd fyddai'n rhoi'r sgiliau i blant maent eu hangen i gael swyddi.

Dywedodd pobl fod angen mwy o gynlluniau brentisiaeth a chyfleoedd gwirfoddoli i roi 'profiad ar y swyddi' y mae cyflogwyr yn edrych amdano.

*"Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc ennill y sgiliau i gael swydd"*

Cawsom nifer o sylwadau yn canmol rhai prosiectau lleol, megis clybiau swyddi a chefnogaeth un-i-un, ar gael i helpu pobl i waith a dylid cyflwyno mwy ynghyd â'r cyllid angenrheidiol.




Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# DRAFFT FLAENORIAETH: Gwella seilwaith a chynyddu cyfleoedd ar gyfer twf

Hon oedd y ddrafft flaenoriaeth 6ed mwyaf poblogaidd gyda 205 o sylwadau (9%)

## 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y drafft flaenoriaeth yma:

1. Trafnidiaeth gyhoeddus (52 o sylwadau, 27%)
2. Dosbarthiad tecach o fuddsoddiad (24 o sylwadau, 13%)
3. Siopau gwag/ansawdd gwael (18 o sylwadau, 9%)

## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Roedd trafnidiaeth gyhoeddus yn fater allweddol i bobl yn ystod ein gwaith ymgysylltu gyda llawer yn feirniadol o'r gwasanaethau bws gan ddweud eu bod yn aml yn hwyr, heb fod ar gael yn gynnar yn y bore, yn rhy ddrud a heb fod yn rhoi cysylltiadau digonol i swyddi. Roedd pobl yng nghymoedd Ebwy Fawr a De Ebwy Fach yn fwy tebygol o ddweud fod trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem.

*"Yr unig le y gallwch fynd iddo o Gwmtyleri am i 8 o'r gloch y bore yw Brynmawr, ac mae'n cymryd awr a hanner i gyrraedd Glynebwy!"*

Mater poblogaidd arall oedd ansawdd siopau yn ein canol trefi, gyda llawer yn dweud fod angen mwy o siopau a siopau ansawdd gwell ac nid cynifer o siopau bwyd cyflym a pharlyrau harddwch. Roedd pobl yn Ne Cwm Ebwy Fach yn fwy tebygol o ddweud hyn.

*"Angen siopau ansawdd gwell fel siopau dillad a siopau cyffredinol"*

*"Pam nad yw'r Cyngor yn caniatau i fasnachwyr stryd weithredu ar eu safleoedd? Mae gen i bitsh ym Mhowys oherwydd ei fod am ddim"*

Teimlai nifer o bobl fod gan rhai trefi fwy o gyllid nag eraill a bod angen i fuddsoddiad fod yn fwy cyfartal a theg ar draws yr ardal. Eto, roedd rhai yn Ne Cwm Ebwy Fach yn fwy tebygol o deimlo fel hyn.

Roedd hefyd adroddiadau am ansawdd gwael ffyrdd gyda llawer o dyllau mewn ffyrdd ym mhob rhan o'r ardal.




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# AMCAN: Blaenau Gwent eisiau gofalu am a diogelu ein hamgylchedd

Yr amcan yma oedd y 4ydd un myaf poblogaidd, gan dderbyn 419 o sylwadau (19%). roedd 3 drafft flaenoriaeth y gwnaethom siarad gyda phobl amdanynt ar gyfer yr amcan yma:

## DRAFFT FLAENORIAETH: Diogelu, cadw a gwella ein hamgylchedd

Dyma'r 2il ddrafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 260 o sylwadau (11%)

### 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y ddrafft flaenoriaeth yma:

1. Ardal lân a thaclus (97 o sylwadau, 39%)
2. Gwastraff ac ailgylchu (34 o sylwadau, 14%)
3. Cadwraeth (25 o sylwadau, 10%)

### Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Mae ardal lân a thaclus heb sbwriel, chwyn na baw cŵn yn un o'r materion pwysicaf i bobl. Dywedodd nifer nad oedd y strydoedd yn cael eu glanhau'n ddigon rheolaidd, nad oedd digon o finiau a bod chwyn yn cael eu gadael i dyfu. Roedd hefyd deimlad fod angen i agwedd preswylwyr newid ac y dylent gymryd fwy o gyfrifoldeb am lanhau eu hardaloedd eu hunain. Fodd bynnag, dywedodd rhai pobl oedd wedi ymuno mewn ymgyrchoedd codi sbwriel wrthym eu bod wedi peidio gwneud hynny oherwydd sarhad gan breswylwyr eraill.

*"Diffyg parch at yr amgylchedd"*

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai gostwng pris casglu eitemau swmpus a mwy o ganolfannau sbwriel yn arwain at ostyngiad mewn sbwriel a thipio anghyfreithlon. Roedd yr angen i ailgylchu mwy yn fater cyffredin a dywedodd pobl y gellid gwneud mwy i annog cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu, megis ymgyrchoedd hyrwyddo.

*"Codwch eich sbwriel eich hun!"*

*"Mae casglwyr sbwriel yn cael eu sarhau a'u cyhuddo o fynd â swyddi pobl leol"*

Roedd cydnabyddiaeth fod tirlweddau a pharciau hardd ym Mlaenau Gwent a bod angen eu cadw a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y gymuned Fwdhaidd yn neilltuol o debygol o sôn am hyn.

*"Cadwch y wlad yma'n daclus. Peidiwch tipio"*




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# DRAFFT FLAENORIAETH: Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ynni adnewyddadwy


Dyma'r drafft flaenoriaeth leiaf poblogaidd drwyddi draw gyda 37 o sylwadau (2%). Nid oedd digon o sylwadau i greu rhestr 3 uchaf o faterion ar gyfer y flaenoriaeth yma.

## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Y drafft flaenoriaeth yma gafodd y nifer leiaf o sylwadau. Dywedodd y rhai a wnaeth sylw y byddent yn hapus i weld mwy o dyrbinau gwynt cyn belled nad oeddent yn difetha golwg y dirwedd. Dywedodd rhai hefyd y gallem wneud mwy o ddefnydd o bŵer solar ac y dylem annog cynnydd mewn perchnogaeth ceir trydan, ac y byddai'r ddau yn manteisio o gymhellion.

*"Ceisiwch beidio difetha’r dirwedd gyda thyrbinau gwynt"*

*"Cefnogi pobl i wneud eu cartrefi'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd"*




Enghreifftiau o’r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# DRAFFT FLAENORIAETH: Annog mwy o dwristiaeth i'r ardal

Dyma'r 9fed drafft flaenoriaeth fwyaf poblogaidd gyda 122 o sylwadau (5%)

## 3 uchaf y materion y soniodd pobl amdanynt ar gyfer y drafft flaenoriaeth yma:

1. Hyrwyddo (60 o sylwadau, 51%)
2. Hanes diwylliant (7 o sylwadau, 6%)
3. Cefnogaeth (6 o sylwadau, 5%)

## Yr hyn ddywedodd pobl wrthym:

Teimlai pobl y gellid gwneud llawer mwy i hyrwyddo ein hardal ac y byddai'n well cadw'r holl wybodaeth mewn un lle i'w gwneud yn haws i dwristiaid a phreswylwyr ganfod beth sy'n digwydd.

*"Mae gennym hanes gwych ym Mlaenau Gwent. Dylid denu a buddsoddi mewn twristiaeth"*

Roedd preswylwyr yn cydnabod fod gennym dirwedd hardd ynghyd â hanes a diwylliant cyfoethog, er fod teimlad nad oeddem yn dathlu digon arnynt. Awgrymodd pobl y dylid cyflwyno mwy o deithiau, cyfleoedd cerdded a digwyddiadau lleol, megis gwyliau jazz neu fwyd, i ddenu mwy o bobl i'r ardal.

*"Gwell dewis o lety yn y sir o barciau carafán i westai i wella'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd"*

*"Trefnu teithiau cerddedgyda thywysydd i ogofau'r Siartwyr a'r chwareli"*




Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.

# BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o gam 3 Y Blaenau Gwent a Garem, ynghyd ag adborth o gam 1 a 2 i helpu paratoi drafft o Gynllun Llesiant ar gyfer yr ardal.

Bydd y Cynllun Llesiant yn rhoi manylion y blaenoriaethau allweddol y byddwn yn gweithio arnynt i geisio sicrhau'r Blaenau Gwent a Garem. Bydd darparwyr ein holl wasanaethau cyhoeddus allweddol yn yr ardal yn defnyddio'r cynllun i osod eu cyfeiriad gwaith am flynyddoedd i ddod, felly mae'n ddogfen bwysig iawn fydd yn cael effaith fawr ar ein bywydau.

## Y BLAENAU GWENT A GAREM: CAM 4

**Yn dod yn fuan ..**

Byddwn yn ôl ar y strydoedd yn fuan ar gyfer cam 4 Y Blaenau Gwent a Garem lle byddwn yn gofyn am eich sylwadau am ein drafft Gynllun Llesiant, gan roi'r cyfle i chi ddylanwadu arno cyn iddo gael ei gwblhau.

Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau canfod beth yw barn pobl yn y gymuned am ein hardal ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol i helpu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.

Byddwn yn eich gadael gyda stori Danielle ar y dde, a ysgrifennwyd gan ddisgybl yn Ysgol Gynradd Sant Illtyd ..

Danille sat down on the lushus, green grass Moutin. She loved to come here as it looked over the whole of Bleanu Gwent Danielle treasured her home becouse of its culture, history, healthy lifestyles, happy communities and freindly communities a sparkle shined in her crystal blue eyes as she watched the busy, beating borugh with pride, however she knew it could be better no matter how good it already was, she pondered how it could improve Bleanu Gwent and who would improve it in that very precious moment Danille decided she was going to improve Bleanu gwent becouse change has to start with someone. Change can also begin with you. So next time you see litter, pick it up, dont vandelize, be kind and help becouse change starts with you be like Danille.

Charlotte, St.Illtyds

Enghreifftiau o'r adborth a gafwyd. Rydym yn croesawu adborth yn y Gymraeg ond ni chafodd unrhyw adborth yn y Gymraeg.